



CANLLAW GORSAFOEDD AIL-LENWI

**Rhowch eich tap ar y map -
ymuno â'r Chwyldro Ail-lenwi**

CYNNWYS

- 1.** Croeso
- 2.** Problem plastig
- 3.** Sut mae Ail-lenwi'n gweithio?
- 4.** Sut i roi eich tap ar y map
- 5.** Creu Gorsaf Ddŵr
- 6.** Gweithio gyda'ch tîm
- 7.** Helpwch ni i wneud sblash!
- 8.** Eisiau chwarae mwy o ran?
- 9.** Ansawdd a Hylendid Dŵr
- 10.** Cwestiynau Cyffredin
- 11.** Cysylltu

Croeso i'r Chwyldro Ail-lenwi!

Mae cofrestru fel Gorsaf Ail-lenwi yn ffordd hawdd o ddod yn rhan o ymgyrch genedlaethol a rhyngwladol i daclo llygredd plastig yn llygad y ffynnon. Mae Ail-lenwi'n ymgyrch llawr gwlad lwyddiannus sy'n ceisio taclo llygredd plastig drwy sicrhau bod ail-ddefnyddio ac ail-lenwi potel gyda dŵr tap am ddim yn haws na phrynu un newydd. Rydyn ni eisiau rhwystro miliynau o boteli plastig rhag cael eu cynhyrchu bob blwyddyn, a rhoi diwedd ar y norm cymdeithasol presennol o brynu dŵr potel pan fyddwch chi ar grwydr, a'i gwneud yn haws ac yn arferol i bobl gario potel y mae modd ei hail-ddefnyddio a'i hail-lenwi am ddim pan fyddan nhw ar grwydr. Rydyn ni'n lwcus fel cenedl o gael dŵr yfed o ansawdd da – does dim angen prynu dŵr potel.

Ein nod yw sicrhau bod pobl yn gallu ail-lenwi eu potel gyda dŵr tap ar bob stryd fawr, ac i wneud hyn mae angen eich help chi arnon ni. Gall busnesau a manwerthwyr lleol wneud gwahaniaeth enfawr i'r ymgyrch fyd-eang i leihau llygredd plastig.

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi i wneud y mwyaf o fod yn Orsaf Ail-lenwi. Rydyn ni'n gobeithio drwy ymuno â'n hymgyrch, nid yn unig y byddwch chi'n cyrraedd cynulleidfa newydd ac yn cynyddu nifer y bobl sy'n dod i mewn i'ch busnes, ond hefyd yn sefydlu perthynas agosach gyda'ch cwsmeriaid presennol.

Diolch yn fawr i chi. Allen ni ddim gwneud hyn hebdoch chi!

Y tim Ail-lenwi



2. Problem Plastig

Caiff **miliwn** o boteli plastig eu prynu bob munud. Mae disgwyl i'r ffigur hwnnw gynyddu **20%** erbyn **2021**.¹

Yn ystod y **15 mlynedd** diwethaf, mae'r defnydd o ddŵr potel wedi **dyblu**.³

Mae person cyffredin yng ngwledydd Prydain yn defnyddio **150** o boteli dŵr bob blwyddyn ar gyfartaledd.⁶

Erbyn hyn, poteli plastig yw traean holl lygredd plastig y môr.² **1/3**



Mae angen **8 litr** o ddŵr i gynhyrchu 1 botel blastig untro.⁴

Caiff **13 biliwn** o boteli plastig eu defnyddio yng ngwledydd Prydain bob blwyddyn.⁵

Erbyn hyn, mae dros **159** o boteli plastig am bob milltir o draeth yng ngwledydd Prydain.⁷

Caiff **100,000** o famaliaid y môr a chrwbanod y môr a **miliwn** o adar y môr eu lladd gan lygredd plastig bob blwyddyn.⁸

Mae astudiaethau wedi dangos bod gan hyd at **90%** o adar y môr blastig yn eu stumogau.⁹

⁽¹⁾ Cyf Adroddiad tueddiadau pecynnu Euromonitor International. ^(2,3,6) Adroddiad Tŷr Cyffredin 2017 'Plastic bottles: Turning Back the Plastic Tide'.

⁽⁴⁾ Cyf Adroddiad Seas at Risk ac Eunomia. Single-use Plastics and the Marine Environment. ⁽⁵⁾ Cyf RECYcling of Used Plastics Limited, Arolwg RECOUP 2017 ar Gasgliadau o Gartrefi (Mehefin 2017). ⁽⁷⁾ Cyf Arolwg diweddaraf Beachwatch (2016, MCSUK). ^(8,9) <http://www.unesco.org>



3 Sut mae Ail-lenwi'n gweithio?

Mae Ail-lenwi'n cysylltu pobl sy'n chwilio am ddŵr gyda miloedd o fusnesau lleol, safleoedd cymunedol, canolfannau trafniadaeth a ffynhonnau dŵr lle mae modd iddyn nhw ail-lenwi am ddim. Gall unrhyw un lwytho'r ap i lawr er mwyn dod o hyd i Orsafoedd Ail-lenwi cyfagos, lle mae modd ail-lenwi am ddim pan fyddwch chi ar grwydr.

Mae caffis, bariâu, bwytaï, banciau, orielau, amgueddfeydd a busnesau eraill sydd am gymryd rhan yn cofrestru gyda'r ap ac yn rhoi sticer yn eu ffenest, er mwyn rhoi gwybod i bawb sy'n cerdded heibio bod croeso iddyn nhw ddod i mewn a llenwi eu potel. Mae miloedd o Orsafoedd Ail-lenwi yng ngwledydd Prydain yn unig ar yr ap erbyn hyn - gan gynnwys gorsafoedd trên, archfarchnadoedd, meysydd awyr a chadwyni stryd fawr fel Costa, John Lewis a Chaffis Morrisons.

Pam cymryd rhan?

Trowch y tap ymlaen. Trowch y chwyldro Ail-lenwi ymlaen.

- **Byddwch y newid.** Dangoswch i'ch cwsmeriaid eich bod chi, eich busnes a'ch staff yn ymroddedig i weithredu yn erbyn llygredd plastig.
- **Mwy o bobl yn dod i mewn i'ch busnes.** Mae pobl angen dŵr o hyd – a nawr mae ganddyn nhw reswm arall i ymweld â'ch busnes.

Bydd yr ap Ail-lenwi a'r sticer Ail-lenwi yn eich ffenest yn denu pobl sychedig sy'n cerdded heibio i mewn i'r busnes.

- **Ymunwch ag ymgyrch sy'n tyfu.** Drwy ddod yn Orsaf Ail-lenwi, byddwch chi'n ymuno â rhwydwaith o filoedd o fusnesau a sefydliadau sydd i gyd yn gweithio tuag at yr un nod.
- **Cynnwys gwych ar gyfer hyrwyddo a'r cyfryngau cymdeithasol.** Rydyn ni'n rhoi popeth sydd ei angen arnoch chi i ddatlu eich cyfranogiad drwy eich sianeli cymdeithasol, gan gynnwys deunyddiau brand Ail-lenwi parod i'w defnyddio.
- **Cyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus -** cysylltwch â Chynlluniau Ail-lenwi lleol a dod yn rhan o ddigwyddiadau a chyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus.

Byddai

67% o bobl yn fwy tebygol o ddefnyddio potel ddŵr amldro petaen nhw'n gwybod y byddai busnes yn awyddus i'w llenwi.

Dywedodd

66% o bobl y bydden nhw'n fwy tebygol o brynu gan fusnes wrth ail-lenwi.

Byddai

7 ymhob 10 person yn ystyried busnes mewn modd mwy ffafriol petaen nhw'n cynnig dŵr yfed am ddim.



Mae

5.5 biliwn

o boteli plastig yn osgoi cael eu casglu gydag ailgylchu'r cartref bob blwyddyn. Maen nhw'n cael eu taflu fel sbwriel, yn mynd i safle tirlenwi neu'n cael eu llosgi.

Byddai

65% yn fwy tebygol o ddechredu i brynu ganddynt yn y dyfodol.

Byddai

64% yn dewis prynu gan fusnes sy'n cymryd rhan yn hytrach na'u cystadleuydd.

4. Sut i roi eich tap ar y map

Sut i roi eich tap ar y map

Mae'n hawdd ychwanegu eich busnes fel Gorsaf Ail-lenwi gyda'r ap Ail-lenwi – a bydd yn eich cysylltu chi gyda miloedd o gwsmeriaid posib ac yn dod â chi'n rhan o ymgyrch ryngwladol sy'n tyfu.

1. Lawrlwytho

Llwytho'r ap Ail-lenwi i lawr am ddim [yma](#).

2. Cofrestru


Agorwch yr ap, dewiswch Chwaraewch Ran ac Ychwanegu Gorsaf, a nodwch fanylion eich Gorsaf Ail-lenwi. Dylai eich cais gael ei gymedroli ymhen 48 awr, a bydd yn ymddangos yn fyw ar yr ap.

3. Paratoi

Sicrhewch fod pawb yn eich tîm yn ymwybodol eich bod chi'n cynnig ail-lenwadau, yn deall y weithdrefn ac yn gwybod pa dap sydd wedi'i ddynodi ar gyfer hyn. Dylech gynnwys ymwybyddiaeth Ail-lenwi yn eich canllawiau a'ch gweithdrefnau hyfforddi ar gyfer staff newydd - gallwch ddarllen ein cyngor ar gyfer canllawiau i staff [yma](#).

4. Byddwch yn Amlwg

Arddangoswch sticer ffenest eiconig Ail-lenwi a rhowch y poster mewn lle gweladwy i ddenu ymwelwyr sychedig. Os nad oes gennych chi sticer eto, gallwch wneud cais am un [yma](#).



5. Creu Gorsaf Ddŵr

Mewn arolwg gan Brita yn 2018, dywedodd 73% o bobl y bydden nhw'n fwy tebygol o ail-lenwi pe bai gorsaf lenwi ar gael a bod dim angen iddyn nhw ofyn i'r staff. At hynny, dywedodd 46% o bobl eu bod nhw'n gwybod a oedd croeso iddyn nhw ail-lenwi mewn caffi neu safle.

Mae gorsaf ddŵr yn rhoi'r arwydd gorau i bobl eich bod chi'n hapus i gynnig ail-lenwadau, ac mae'n cynnig gofod lle gellir dangos poster i a gwybodaeth. O ran mantais i'ch busnes, bydd hefyd yn arbed amser i chi a'ch staff pan fydd hi'n brysur, sy'n sefyllfa arall lle nad yw pobl yn awyddus i ail-lenwi.

Sut i sefydlu gorsaf

• Jwg dŵr

Gallwch ddefnyddio jwg dŵr syml neu gynhwysydd dŵr gwydr gyda thap.

• Ychwanegu gwerth i'ch busnes

Mae cynwysyddion dŵr gyda ffrwythau neu giwcymbr yn ychwanegu gwerth i'ch busnes a phrofiad cyffredinol eich cwsmeriaid.

• Gwydrau

Os ydych chi'n cynnig gwydrau, mae'n well defnyddio rhai y gallwch eu golchi yn hytrach na chwpanau untro. Plastigion untro yw plastigion y gellir eu compostio hefyd, ac felly mae angen gwasanaeth compostio arbennig (compostio mewn llestr) er mwyn eu torri i lawr.

Hylendid

Cofiwch newid y dŵr yn rheolaidd drwy gydol y dydd, a chadwch wydrau ffres a glân wrth law. Dylech drin eich gorsaf ddŵr fel gweddill eich busnes o ran hylendid.

Cofiwch:

Er bod hyn yn swnio fel gwaith ychwanegol o bosib, byddai **64%** o gwsmeriaid yn fwy tebygol o ddychwelyd i brynu yn y dyfodol pe baen nhw'n gallu ail-lenwi eu potel ddŵr. Dywedodd **62%** y byddai hyn yn golygu y bydden nhw'n dewis busnes sy'n cynnig ail-lenwadau am ddim dros fusnesau eraill a byddai **73%** yn ystyried busnes mewn modd mwy ffafriol pe bai'n rhoi dŵr tap neu ddŵr ffiltwr ar gais.



6. Gweithio gyda'ch tîm

Mae rhoi gwybod i'ch staff eich bod chi'n dod yn Orsaf Ail-lenwi yn rhan fawr o'r hyn sy'n gwneud y prosiect hwn yn llwyddiannus. Mae'n cynnig profiad cadarnhaol i'r cwsmeriaid, a byddan nhw'n teimlo'n fwy cyfforddus yn dod â'u potel gyda nhw yn y dyfodol. Byddai'n syniad da cynnal cyfarfod briffio tîm ar ôl cofrestru, fel bod pawb yn gwybod eich bod yn cymryd rhan yn y prosiect Ail-lenwi a sut i gynnig ail-lenwadau. Mae trosiant staff ym mhob busnes, felly dylech gynnwys gwybodaeth am Ail-lenwi mewn deunyddiau neu hyfforddiant a roddir i aelodau newydd o staff sy'n ymuno gyda'ch tîm.



- **Anogwch eich gweithwyr a'ch cwsmeriaid** i lawrlwytho ac i ddefnyddio'r ap Ail-lenwi
- **Sbardunwch eich tîm o weithwyr i wirfoddoli** i Ail-lenwi yn eu cymuned leol
- **Ystyriwch brynu poteli Ail-lenwi wedi'u brandio ar y cyd i'ch gweithwyr** fel y gallan nhw leihau eu gwastraff plastig eu hunain, neu werthu poteli Ail-lenwi yn eich cafffi, bwyty neu fusnes. Cysylltwch â brand@citytosea.org.uk i gael rhagor o wybodaeth.



7. Helpwch ni i wneud sbllash!



1.

Rhowch wybod i bawb eich bod chi'n cefnogi Ail-lenwi. Dywedwch wrth eich cwsmeriaid ar y pwynt gwerthu, yn eich negeseuon e-bost, neu gallwch hyd yn oed gynnwys rhywbeth ar eich bwydlen neu'ch arwyddion. Cysylltwch â marketing@refill.org.uk i glywed pa ffyrdd eraill gallwch chi chwarae mwy o ran.



2.

Codwch ymwybyddiaeth o'r Cynllun Ail-lenwi a'ch cyfranogiad ar eich sianeli digidol. Gallwch ychwanegu ein logo ar eich gwefan, llwytho ein pecyn cymorth digidol i lawr am ddim, sôn am eich cyfranogiad ar y cyfryngau cymdeithasol, a chysylltu gyda'n tîm marchnata er mwyn i ni allu rhannu eich llwyddiant ar ein sianeli ni.



3.

Archebwch ddeunyddiau marchnata am ddim gennym i'w harddangos ar y pwynt gwerthu, a gwnewch yn siŵr fod eich cwsmeriaid yn gwybod eich bod chi'n rhan o'r ymgyrch.



4.

Cydweithiwch ar gyfleoedd cyfryngau a chysylltiadau cyhoeddus lleol.



8 Eisiau chwarae mwy o ran?

Mae dros 100 o Gynlluniau Ail-lenwi ar draws Prydain yn lledaenu neges Ail-lenwi, yn cofrestru Gorsafoedd Ail-lenwi newydd ac yn ysbrydoli pobl a busnesau lleol i leihau eu hól troed plastig. Cymerwch gip i weld a oes Cynllun yn eich ardal chi **yma**.

Dod yn bartner

Rydyn ni'n falch iawn o'ch cael chi gyda ni. Gyda chymorth busnesau brwdfrydig fel chi, gallwn ni ddod gam yn agosach at rwystro plastig di-angen a diogelu bywyd yn ein cefnforoedd. Does dim un sefydliad a all ddatrys y broblem, ond drwy weithio gyda'n gilydd gallwn gymryd cam cadarnhaol tuag at atal llygredd plastig yn y gwraidd a lleihau allyriadau CO2. Os hoffech chi drafod cyfleoedd pellach i greu partneriaethau, cysylltwch ag **Alannah**, ein Rheolwr Partneriaethau, drwy alannah@citytosea.org.uk.

Lleihau eich defnydd plastig eich hun

Oes ffyrdd eraill o dorri i lawr ar blastig untro yn eich busnes?

- **Ydych chi'n defnyddio gwelltynnau, cyllyll a ffyrc, troyddion, caeadau neu gwpanau coffi plastig?**
- **Ym mha gynwysyddion ydych chi'n gweini bwyd?** Allech chi gynnig gostyngiad i gwsmeriaid sy'n dod â'u cynhwysydd aml dro eu hunain?
- **Ym mha ddeunydd pecynnu mae eich bwyd yn eich cyrraedd?** Allech chi ofyn i'ch cyflenwyr eu hanfon mewn cynwysyddion aml dro a chael gwared â pheccynnau plastig?
- **Allech chi feddwl am ddulliau amgen yn lle gwerthu poteli plastig, fel diodydd mewn caniau?**
- **Gwnewch newidiadau mewnol yn arferion eich busnes i leihau llygredd plastig - mae ein canllaw defnyddiol ar gael yma.**



9. Ansawdd a Hylendid Dŵr

Mae cadw ein defnyddwyr ni a'ch cwsmeriaid chi wedi'u hydradu ac yn hapus yn bwysig iawn. Ym Mhrydain, rydyn ni'n lwcus o gael dŵr tap gyda'r gorau yn y byd o ran ansawdd, sy'n mynd drwy broses brofi lem cyn cyrraedd ein tapiau. Mae dilyn y canllawiau syml hyn yn helpu i sicrhau bod ail-lenwi'n ddiogel ac yn hylan i bawb.

Ar eich safle - nodiadau i berchnogion busnes neu reolwyr

- Pan fyddwch chi'n cofrestru fel Gorsaf Ail-lenwi, byddwch chi'n cytuno i ddarparu dŵr yfed glân a llesol ar gais. Fel perchennog neu breswylydd y safle, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y system blymio'n cydymffurfio'n gyfreithiol â Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999. Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i bob busnes, boed yn Orsaf Ail-lenwi ai peidio, ac mae'n bosib y bydd cwmnïau dŵr yn cynnal archwiliadau yn achlysurol er mwyn gwirio cydymffurfiaeth.
- Dylai'r tap neu'r peiriant a gaiff ei ddynodi at ddefnydd Ail-lenwi fod yn dap dŵr oer glân, hylan ac unigol (ac nid tap cymysg), ac ni all fod wedi'i leoli mewn toiledau na thros ddraen agored. Dylai pob aelod o'ch staff wybod mai dyma'r tap sydd wedi'i ddynodi at ddiben Ail-lenwi – mae'n bosib y byddwch chi eisïau rhoi label arno i nodi hynny.
- Os byddwch chi'n gosod is-adeiledd newydd ar gyfer eich Gorsaf Ail-lenwi, neu'n diwygio neu'n ehangu eich system blymio – er enghraifft wrth osod peiriant dŵr neu oeri dŵr – mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i roi gwybod i'ch cwmni dŵr lleol ymlaen llawn, a dylech ddefnyddio contractiwr cymeradwy WaterSafe i'w osod er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol.
- Os caiff hysbysiad 'gorfodi' neu 'peidiwch ag yfed' ei gyflwyno gan gwmni dŵr ar safle sydd wedi cofrestru fel Gorsaf Ail-lenwi, bydd y cwmni dŵr yn rhoi gwybod i City to Sea a bydd y safle'n cael ei dynnu oddi ar yr ap Ail-lenwi tan bod y cwmni dŵr wedi'i fodloni bod y problemau ansawdd a hylendid dŵr wedi'u datrys. Os oes gan ddefnyddwyr yr ap bryderon ynglŷn â hylendid, gallan nhw roi gwybod am y rhain a bydd y cwmni dŵr perthnasol yn ymchwilio lle bo hynny'n briodol.
- I gael rhagor o wybodaeth am ansawdd a hylendid dŵr yn eich busnes, gwylwch y fideo hwn gan y Cynllun Ymgynghori Rheoliadau Dŵr: 'Sut mae'r rheoliadau plymio yn effeithio arnoch chi'.

Cadw'n lân - nodiadau i staff sy'n Ail-lenwi

- Os nad yw'r tap a ddefnyddir ar gyfer Ail-lenwadau wedi'i ddefnyddio ers peth amser, rhedwch y dŵr am ychydig i gael gwared ag unrhyw hen ddŵr o'ch system blymio.
- Wrth gynnig Ail-lenwadau, ni ddylai'r botel gyffwrdd â'r tap neu'r jwg. Cadwch ofod clir rhyngddynt i osgoi posibilrwydd o halogi.
- Pan fo rhywun yn rhoi eu potel i'w hail-lenwi, gofynnwch iddyn nhw dynnu'r caead eu hunain, a pheidwch â chyffwrdd ceg y botel/gwydr.
- Fel Gorsaf Ail-lenwi, os fydd potel rhywun yn aroglï'n wael neu'n edrych yn frwnt, does dim rhaid i chi ei hail-lenwi.

10. Cwestiynau Cyffredin

A fydd cynnig Ail-lenwadau'n effeithio ar fy miliau dŵr?

Mae litr o ddŵr yn costio oddeutu 0.2c. Byddai llenwi deg potel 500ml yn costio ceiniog.

Allwn ni godi tâl am Ail-lenwadau?

Na, egwyddor Ail-lenwi yw cynnig dŵr yfed hygyrch am ddim.

Ro'n i'n meddwl bod rhaid i fi gynnig dŵr fel gofyniad cyfreithiol, felly pam fod angen Ail-lenwi arnon ni?

Rhwyrstr mwyaf ail-lenwi yw bod llawer o bobl yn teimlo'n anghyfforddus yn gofyn am wydraid o ddŵr tap, ac yn fwy anghyfforddus fyth yn gofyn am gael llenwi potel. Mae llawer o bobl yn teimlo'n swil yn gofyn i gael eu potel wedi'i hail-lenwi. Mae'r sticeri'n croesawu ac yn gwahodd pobl sy'n cerdded heibio i mewn i'r busnes, a all arwain at brynu rhywbeth pan fyddan nhw yno.

Oes ffigurau i ddangos cynnydd mewn busnes?

Amlygodd arolwg YouGov yn 2018 y byddai 64% o ddefnyddwyr yn fwy tebygol o ddychwelyd i brynu yn y dyfodol petaen nhw'n gallu llenwi eu potel ddŵr yno. Dywedodd 62% y byddai hyn yn golygu y bydden nhw'n dewis busnes sy'n cynnig ail-lenwadau am ddim dros fusnes sy'n cystadlu, a byddai 73% yn ystyried busnes mewn modd mwy ffafriol pe byddai'n rhoi dŵr tap neu ddŵr ffiltwr ar gais.

Bydda i'n colli arian o werthu poteli dŵr – pam ddylwn i wneud hyn?

Bydd Ail-lenwi yn denu pobl sy'n cerdded heibio a all gael eu temptio i wneud pryniad pris uwch. Hefyd, mae hyn yn hwb enfawr i'ch enw da amgylcheddol, a bydd yn hybu amlygrwydd a chanfyddiad pobl o'ch busnes. Dydyn ni ddim yn gofyn i chi beidio â gwerthu poteli plastig untro, dim ond gofyn i chi lenwi poteli pobl am ddim os bydd rhywun yn dod i ofyn i chi Ail-lenwi.

Faint fydda i'n helpu'r amgylchedd?

Mae ôl-troed carbon cynhyrchu dŵr potel 500% yn uwch na dŵr tap. Caiff rhywfaint ohono ei gludo hanner ffordd ar draws y byd! Mae'r cartref cyffredin yn defnyddio 480 o boteli plastig bob blwyddyn, ac ni chaiff 44% o boteli plastig eu rhoi yn y bin ailgylchu hyd yn oed.

Allwn ni adael os nad yw'r cynllun yn gweithio i ni?

Gallwch, ar unrhyw adeg – anfonwch e-bost at info@refill.org.uk a byddwn ni'n eich tynnu oddi ar restrïadau'r ap Ail-lenwi.

Rhagor o gwestiynau?

www.refill.org.uk

info@refill.org.uk

